# Cronfa Cefnogi Plant Aelodau'r Lluoedd Arfog mewn Addysg yng Nghymru (2020/21) – Crynodeb ariannu llywodraeth leol

**Cyhoeddwyd: Mawrth 2021**
**Awduron: Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (RSLOs) ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog**

## Cyflwyniad

Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda thîm SSCE Cymru i nodi plant y lluoedd arfog yn eu hardaloedd a datblygu cynlluniau ariannu i gefnogi aelodau'r lluoedd arfog mewn addysg. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r cynlluniau y mae pob awdurdod lleol wedi'u datblygu, gan amlinellu sut y byddant yn defnyddio'r arian a ddyfarnwyd iddynt o Gronfa Cefnogi Plant Aelodau'r Lluoedd Arfog mewn Addysg yng Nghymru Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

Mae nifer plant aelodau'r Lluoedd Arfog a nodir ym mhob awdurdod lleol isod yn cyd-fynd â diffiniad Llywodraeth Cymru o blentyn aelod o'r Lluoedd Arfog. Mae SSCE Cymru hefyd yn cadw data ar blant aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n perthyn i ddiffiniad ehangach. Gweler gwefan SSCE Cymru am ragor o wybodaeth am y diffiniadau hyn a dadansoddiad llawn o'r data ar blant aelodau'r Lluoedd Arfog o dan y ddau ddiffiniad.

## Cynnwys


**Gogledd Cymru**
Ynys Môn....2
Conwy....2
Sir Ddinbych....2
Sir y Fflint....3
Gwynedd....3
Wrecsam....3
Dwyrain Cymru
Blaenau Gwent....3
Caerffili....4
Sir Fynwy....4
Casnewydd....4
Powys....4
Torfaen....4
**De Cymru**
Pen-y-bont ar Ogwr....5

Caerdydd .....5
Merthyr Tudful.....5
Rhondda Cynon Taf.....6
Bro Morgannwg.....6
Gorllewin Cymru
Sir Gaerfyrddin.....6
Ceredigion .....6
Castell-nedd Port Talbot .....7
Sir Benfro.....7
Abertawe.....7

# Gogledd Cymru

**RSLO: Nia Williams**

## Ynys Môn

**Data:** 45 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 6 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £4,750
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio'r cyllid i nodi person allweddol ym mhob ysgol i gydlynu cymorth i blant aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd sydd yn eu hardal. Bydd staff ysgolion yn mynychu hyfforddiant CPD SSCE Cymru a bydd cydlynwyr yn gweithio gyda'r Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (RSLO) ar gyfer plant aelodau'r Lluoedd Arfog i greu cynllun gwaith a fydd yn nodi blaenoriaethau y bydd eu hysgol yn eu gweithredu. Bydd rhannu arfer dda a chydweithio ag ysgolion eraill sydd â phlant aelodau'r Lluoedd Arfog yn cael eu hyrwyddo. Bydd cydlynwyr hefyd yn mynychu cyfarfodydd/confensiynau ar draws yr awdurdod lleol ac yn rhanbarthol, i godi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at weithgareddau posibl y gellid eu hystyried/mabwysiadu wrth gefnogi grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

## Conwy

**Data:** 41 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 16 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £5,500
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penderfynu defnyddio'r arian mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar anghenion pob ysgol. Bydd yr ymyriadau hyn yn cynnwys: rhoi amser i staff fynychu hyfforddiant ELSA a gweithredu strategaethau therapiwtig amrywiol ar sail 1:1 ac mewn grwpiau bach; prynu setiau ar gyfer sesiynau therapi Lego; creu sesiynau lles unigol neu grwpiau bach, gan gynnwys chwarae gemau, archwilio emosiynau a thrafod straeon am newid; datblygu grwpiau a chlybiau iechyd meddwl a lles; gweithredu sesiynau cymorth bugeiliol a phrynu adnoddau i wneud blychau bugeiliol; sefydlu Ystafell Anogaeth i sicrhau bod staff sydd wedi cael hyfforddiant ELSA ar gael mewn lle diogel a chyfforddus i blant; creu darpariaeth grŵp cymorth rhithwir ar ôl ysgol, lle gall myfyrwyr dderbyn cymorth a chyngor 1:1 gan Anogwr Dysgu neu fentor.

## Sir Ddinbych

**Data:** 50 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 22 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £6,750

**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Nodau Cyngor Sir Ddinbych yw rhyddhau staff o bob ysgol gyda phlant aelodau'r Lluoedd Arfog i fynychu hyfforddiant a ddarperir gan yr RSLO. Bydd pob aelod arweiniol o staff yn yr ysgolion a nodwyd yn cael hanner diwrnod i gyfarfod â'r RSLO i drafod anghenion plant aelodau'r Lluoedd Arfog yn yr ysgol benodol. Bydd staff hefyd yn gallu defnyddio'r amser hwn i gynnal archwiliad o arfer cyfredol yn eu hysgol. Gan ddefnyddio canlyniadau'r archwiliad, bydd yr ysgol yn dewis blaenoriaethau/gweithgareddau i fynd i'r afael â hwy a fydd, yn eu barn hwy, yn cael yr effaith fwyaf yn eu hysgol. Byddant hefyd yn datblygu rhwydwaith canolog ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion gyda phlant aelodau'r Lluoedd Arfog, a gynhelir ar Hwb. Bydd hyn ar gael i'r holl staff yn yr ysgolion a nodwyd, gyda'r posibilrwydd o ychwanegu staff ysgol ychwanegol yn y dyfodol.

## Sir y Fflint

**Data:** Anhysbys
**Cyfanswm cyllid:** £3,750
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio'r arian ar gyfer cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff ym mhob un o'r ysgolion lle mae plant aelodau'r Lluoedd Arfog. Bydd hyn yn cael ei gyflawni yn yr RSLO. Bydd y dyraniad grant hefyd yn talu am amser rhyddhau i'r athrawon hynny wneud gwaith dilynol i ddatblygu eu strategaeth yn yr ysgol. Bydd y dyraniad cyllid hefyd yn cynnwys prynu adnoddau i'r ysgol eu defnyddio, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynllunio i gefnogi lles a gwydnwch plant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn addysg. Bydd hyn yn sicrhau y gall ysgolion gynllunio'n effeithiol ac ystyried datblygu gweithgareddau ar gyfer plant aelodau'r Lluoedd Arfog yn 2022.

## Gwynedd

**Data:** 9 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 5 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £1,250
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Gwynedd yn defnyddio'r cyllid i aelod penodol o staff o bob ysgol fynychu pecyn hyfforddi CPD dwy awr ar gyfer ysgolion a ddarperir gan yr RSLO. Bydd staff yn cael eu rhyddhau am gyfanswm o 1.5 diwrnod i weithio gyda'r RSLO ar weithgareddau, gan gynnwys grwpiau trafod gyda phlant aelodau'r Lluoedd Arfog ac amser i archwilio a gweithredu gweithgareddau/blaenoriaethau a nodwyd yn rhestr wirio SSCE Cymru ar gyfer eu hysgol.

## Wrecsam

**Data:** 23 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 10 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £3,000
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn defnyddio'r cyllid i gryfhau eu defnydd o ddata, gan nodi pwy yn union yw plant aelodau'r Lluoedd Arfog a ble maent yn y sir a chanfod eu hanghenion. Bydd yr awdurdod lleol yn archwilio'r math o ymyriadau a allai helpu i gefnogi'r grŵp hwn yn y tymor hir. Bydd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant i staff priodol mewn ysgolion, fel athrawon, gweithwyr ieuenctid a chynghorwyr.

# Dwyrain Cymru

**RSLO: Caitlin Woodland**

## Blaenau Gwent

**Data:** 13 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 6 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £1,000
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig gweithdai iechyd, lles ac adeiladu gwytnwch gan y sefydliad cyn-filwyr, Forces Fitness. Mae'r gweithdai ar gael ar gyfer pob dosbarth gyda phlentyn aelod o'r Lluoedd Arfog. Bydd ysgolion hefyd yn cael

eu hannog i ymgysylltu â'r cymorth sydd ar gael gan SSCE Cymru. Yn ogystal, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn sicrhau bod gan ysgolion a'r cyngor ddealltwriaeth gref o faint o blant aelodau'r Lluoedd Arfog sydd ym Mlaenau Gwent a pha ysgolion y maent yn eu mynychu, drwy nodi plant y aelodau'r Lluoedd Arfog ar SIMS.

## Caerffili

**Data:** 64 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 23 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £10,000
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu gweithdai iechyd, lles ac adeiladu gwytnwch gan y sefydliad cyn-filwyr, Forces Fitness. Mae'r gweithdai ar gael ar gyfer dosbarthiadau gyda phlentyn aelod o'r Lluoedd Arfog. Bydd ysgolion hefyd yn cael eu hannog i ymgysylltu â'r cymorth sydd ar gael gan SSCE Cymru.

## Sir Fynwy

**Data:** Anhysbys
**Cyfanswm cyllid:** £5,000
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Sir Fynwy yn darparu gweithdai iechyd, lles ac adeiladu gwytnwch gan y sefydliad cyn-filwyr, Forces Fitness i bob ysgol gynradd ac uwchradd yn Sir Fynwy. Bydd y gweithdai'n pwysleisio wrth ysgolion bwysigrwydd adnabod plant aelodau'r Lluoedd Arfog a'u cefnogi, gyda chymorth SSCE Cymru.

## Casnewydd

**Data:** 72 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 23 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £12,500
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig gweithdai barddoniaeth ac ysgrifennu caneuon i blant aelodau'r Lluoedd Arfog a'u cyfoedion gan yr elusen Never Such Innocence. Yn ogystal, bydd Never Such Innocence yn darparu gweithdai rhithwir ar ôl ysgol i blant aelodau'r Lluoedd Arfog a'u rhieni/gofalwyr, sy'n canolbwyntio ar roi cyfle i blant aelodau'r Lluoedd Arfog rannu eu meddyliau a'u teimladau mewn ffordd ddiogel ac adeiladol. Bydd canlyniadau'r gweithdai hyn yn cael eu defnyddio i greu llyfryn rhithwir a ffilm wedi'i hanimeiddio i ddathlu lleisiau a phrofiadau plant aelodau'r Lluoedd Arfog. Bydd Cyngor Dinas Casnewydd hefyd yn defnyddio eu cyllid i gynnig sesiynau gweithgareddau rhithwir Forces Fitness sy'n cynnwys gweithgareddau ffitrwydd a heriau tîm, yn ogystal ag awgrymiadau iechyd a lles sy'n anelu at feithrin gwydnwch a hyder. Bydd yr arian sydd ar gael hefyd yn cael ei ddefnyddio i ariannu penwythnos gweithgaredd yn rhannol ar gyfer plant aelodau'r Lluoedd Arfog o Gasnewydd a Sir Fynwy, sy'n cael ei redeg mewn cydweithrediad ag SSCE Cymru a Forces Fitness.

## Powys

**Data:** 224 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 32 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £30,500
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Sir Powys yn defnyddio'r cyllid ar gyfer cymorth ac ymyrraeth wedi'i dargedu ar gyfer plant aelodau'r Lluoedd Arfog. Bydd arian yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol gyda phlant aelodau'r Lluoedd Arfog ar sail 'fesul plentyn', gan ddefnyddio'r data ar blant aelodau'r Lluoedd Arfog a adroddwyd gan yr awdurdod lleol ym mis Ionawr 2021. Gall pob ysgol ddewis nifer o strategaethau i gefnogi anghenion penodol plant aelodau'r Lluoedd Arfog sydd yn eu hysgol, megis Cymhorthydd Cefnogi Dysgu ychwanegol neu staff eraill, oriau ar gyfer ymyriadau llythrennedd a rhifedd a/neu gymorth emosiynol a lles. Bydd tîm grwpiau diamddiffyn arbenigol y cyngor ac SSCE Cymru yn gweithio gydag ysgolion i nodi dulliau perthnasol o gefnogi plant aelodau'r Lluoedd Arfog sydd yn eu hysgolion.

## Torfaen

**Data:** 25 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 17 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £3,500
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynnig gweithdai iechyd, lles ac adeiladu gwytnwch gan y sefydliad cyn-filwyr, Forces Fitness. Bydd pob dosbarth cynradd sydd â phlentyn aelodo'r Lluoedd Arfog yn elwa o weithdy awr a bydd pob ysgol uwchradd gyda phlant aelod o'r Lluoedd Arfog yn derbyn hyd at dair awr o weithdai. Yn ogystal, dyrannwyd cyfran o'r cyllid i gynnig adnoddau a deunyddiau cefnogol i ysgolion, yn dibynnu ar anghenion a heriau penodol plant aelodau'r Lluoedd Arfog  a nodwyd gan yr RSLO yn Nwyrain Cymru.

# De Cymru

**RSLO: Annabel Harries**

## Pen-y-bont ar Ogwr

**Data:** 64 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 26 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £8,500
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio'r cyllid i ryddhau aelodau o staff ym mhob ysgol i ymgysylltu â phecyn CPD SSCE Cymru, sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion plant aelodau'r Lluoedd Arfog a meithrin hyder staff wrth gefnogi plant aelodau'r Lluoedd Arfog yn yr ysgol. Bydd cyllid hefyd yn cael ei roi i ysgolion sydd â'r niferoedd uchaf o blant aelodau'r Lluoedd Arfog i brynu adnoddau addas, fel llyfrau a gemau i gefnogi prosiectau a gweithgareddau parhaus. Bydd ysgolion yn defnyddio Pecyn Cymorth SSCE Cymru ar gyfer adnoddau a argymhellir.

## Caerdydd

**Data:** 59 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 27 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £8,000
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Sir Caerdydd yn defnyddio'r cyllid i ddarparu hyfforddiant ELSA i staff allweddol mewn dwy ysgol i wella eu cefnogaeth i blant aelodau'r Lluoedd Arfog. Yn ogystal â'r hyfforddiant, bydd gan staff amser hefyd i weithredu eu sgiliau ELSA drwy gynnig cymorth 1:1 a sesiynau grŵp i blant aelodau'r Lluoedd Arfog. Bydd yr arian hefyd yn cefnogi prynu hyfforddiant Thrive ar gyfer un aelod o staff. Nod hyn yw gwella lles pob plentyn yn yr ysgol. Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i ryddhau aelod penodol o staff ym mhob ysgol i ymgysylltu â gweithgareddau SSCE Cymru, gweithio gyda'r RSLO, trafod cydweithio a gweithredu gweithgareddau a fydd yn ymgorffori cymorth i blant aelodau'r Lluoedd Arfog yn yr ysgolion. Bydd staff yn gallu ymgysylltu ag adnoddau SSCE Cymru (rhestr wirio, offer ar-lein a phecyn cymorth), gyda'r RSLO ar gyfer ymweliadau ysgol a chyda'r sesiynau hyfforddi CPD. Yn olaf, bydd cyfran o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amser rheolwyr prosiect yn cydlynu gweithgaredd ymgysylltu â'r Lluoedd Arfog. Byddwn yn gweithio gyda thimau ymgysylltu'r tri gwasanaeth i ddarparu sesiwn STEM thema filwrol i bob dosbarth yn yr ysgolion yng Nghaerdydd sydd â phlant y Lluoedd Arfog. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys cynhyrchu ffilm i ddangos y gweithgareddau ymgysylltu a'r effaith gadarnhaol ar blant y Lluoedd Arfog a'u cyfoedion.

## Merthyr Tudful

**Data:** 36 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 18 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £4,750

**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Sir Merthyr Tudful yn defnyddio'r cyllid i ddarparu hyfforddiant ELSA i staff allweddol mewn nifer o ysgolion, er mwyn deall sut i gefnogi plant aelodau'r Lluoedd Arfog yn well. Mae hyn yn cynnwys amser staff ac adnoddau i weithredu hyfforddiant ELSA gyda phlant aelodau'r Lluoedd Arfog drwy gynnig cymorth 1:1 a grŵp. Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i ryddhau aelodau o staff ym mhob ysgol i ymgysylltu â chymorth SSCE Cymru a'r RSLO.

## Rhondda Cynon Taf

**Data:** 114 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 48 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £15,500
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf yn defnyddio'r cyllid i brynu nifer o adnoddau Little Troopers. Mae hyn yn cynnwys pecynnau lles sylfaenol, a fydd yn cael eu darparu ar draws tymor yr haf mewn ysgolion lle nodwyd plant aelodau'r Lluoedd Arfog oedran cynradd. Mae hefyd yn cynnwys pecynnau adnoddau, gyda chynlluniau gwersi a deunyddiau i athrawon eu defnyddio ym mhob lleoliad. Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i brynu gweithdai gyda Forces Fitness ar gyfer ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed. Bydd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar adeiladu iechyd, lles a gwydnwch, a fydd yn cynnwys plant aelodau'r Lluoedd Arfog a'u 'swigod' dosbarth yn yr hinsawdd sydd ohoni.

## Bro Morgannwg

**Data:** 286 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 27 o ysgolion
**Cyfanswm cyllid:** £39,000
**Crynodeb o weithgareddau/ prosiectau a ariennir:** Bydd Cyngor Sir Bro Morgannwg yn defnyddio'r cyllid i dalu am gostau staff i gefnogi plant aelodau'r Lluoedd Arfog sydd ag anghenion academaidd a lles. Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Therapi Lego. Mae hyn yn cynnwys cwrs hyfforddi, costau staff llanw a llawlyfr. Bydd rhywfaint o'r arian yn cael ei ddefnyddio i dalu am gost staff sy'n rhedeg Grwpiau Anogaeth a Sesiynau ELSA. Bydd hyn yn cynnwys disgyblion cyfnod sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2. Bydd rhan o'r cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant ac achrediad Ysgolion Sy'n Ystyriol o Drawma. Yn olaf, defnyddir yr arian i sefydlu grŵp staff i rannu arfer gorau/adnoddau, i gefnogi ysgolion i gryfhau eu harbenigedd ac i sicrhau lefel well o gymorth i deuluoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn.

# Gorllewin Cymru

**RSLO: Yasmin Todd**

## Sir Gaerfyrddin

**Data:** 77 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 35 o ysgolion
**Cyllid:** £10,500
**Crynodeb o weithgareddau/prosiectau:** Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn defnyddio'r cyllid i roi amser i staff ymgysylltu ag SSCE Cymru. Bydd hyn yn rhoi cyfle i staff ymgysylltu â hyfforddiant CPD i ddatblygu eu dealltwriaeth o anghenion a heriau plant aelodau'r Lluoedd Arfog, yn ogystal â gweithio'n agos gyda'r RSLO yn ystod y broses ymweliadau ysgol. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi buddsoddi mewn pecynnau lles Little Troopers ar gyfer yr ysgolion cynradd yn yr ardal, a fydd yn rhoi cyfle i ysgolion ddeall anghenion lles plant aelodau'r Lluoedd Arfog yn well.

## Ceredigion

**Data:** 7 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 2 o ysgolion
**Cyllid:** £1000

**Crynodeb o weithgareddau/prosiectau**: Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio'r cyllid i brynu pecynnau lles Little Troopers ar gyfer y ddwy ysgol sydd wedi nodi plant aelodau'r Lluoedd Arfog. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau bod cyllid ar gael i sicrhau y gall ysgolion ymgysylltu ag SSCE Cymru i helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o blant aelodau'r Lluoedd Arfog drwy hyfforddiant CPD ac ymweliadau ysgol. Mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ar gyfer plant aelodau'r Lluoedd Arfog, ac felly bydd yn parhau i ymgysylltu ag ysgolion yn y gobaith o gasglu data mwy cadarn. Bydd hyn yn golygu bod SSCE Cymru yn mynychu cyfarfodydd perthnasol i hyrwyddo pwysigrwydd y data a deall anghenion plant aelodau'r Lluoedd Arfog.

## Castell-nedd Port Talbot

**Data:** 72 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 26 o ysgolion
**Cyllid:** £9750
**Crynodeb o weithgareddau/prosiectau:** Bydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn defnyddio eu cyllid i hyfforddi amrywiaeth o staff, gan gynnwys Swyddog Cyswllt Addysg y Lluoedd Arfog, tîm dysgwyr diamddiffyn a staff yr ysgol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau priodol i ddeall a diwallu anghenion plant aelodau'r Lluoedd Arfog. Mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â chymuned y Lluoedd Arfog ac felly bydd yn sefydlu boreau coffi a gweithgareddau i weithio gyda phlant aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd. O'r gweithgaredd casglu data, nododd Castell-nedd Port Talbot fod gan Ysgol Cwm Brombil nifer sylweddol o blant aelodau'r Lluoedd Arfog ar y gofrestr ac felly defnyddir y cyllid i ymgysylltu â'r RSLO i helpu i ddatblygu gweithgareddau i gefnogi plant aelodau'r Lluoedd Arfog yn yr ysgol honno.

## Sir Benfro

**Data:** 146 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 24 o ysgolion
**Cyllid:** £16,000
**Crynodeb o weithgareddau/prosiectau**. Bydd Cyngor Sir Penfro yn defnyddio'r cyllid i sefydlu un pwynt cyswllt mewn dau o'r clystyrau gyda'r rhan fwyaf o blant aelodau'r Lluoedd Arfog - Hwlffordd a Phenfro. Bydd y clystyrau hyn yn elwa o bwynt cyswllt sydd â dealltwriaeth o anghenion plant aelodau'r Lluoedd Arfog, sy'n gallu cynnig cymorth bugeiliol, yn gallu cyfarfod â'u clwstwr i drafod cefnogi plant aelodau'r Lluoedd Arfog a gallant sicrhau bod ysgolion yn eu clwstwr yn gallu cynnig systemau cymorth cadarn i blant aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n ymuno â'u hysgol. Bydd Cyngor Sir Penfro hefyd yn sicrhau bod gan bob ysgol aelod o staff hyfforddedig ELSA a bod ganddynt amser i ddarparu'r cymorth hwn i blant aelodau'r Lluoedd Arfog. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn defnyddio'r cyllid i ryddhau staff i ymgysylltu ag SSCE Cymru. Bydd hyn yn galluogi staff i ddatblygu eu gwybodaeth am blant aelodau'r Lluoedd Arfog drwy hyfforddiant CPD a'r broses ymweliadau ysgol. Yn olaf, hoffai Cyngor Sir Penfro ddatblygu'r systemau cymorth i deuluoedd a phlant sydd eisoes ar waith. Am y rheswm hwn, bydd y cyngor yn gweithio i gryfhau'r polisi derbyn, creu taflen am yr ardal leol, gwella'r wefan gyda gwybodaeth i deuluoedd aelodau'r Lluoedd Arfog a chreu pecyn ysgolion Sir Benfro i helpu i gefnogi teuluoedd aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n symud i'r ardal.

## Abertawe

**Data:** 53 o blant aelodau'r Lluoedd Arfog mewn 24 o ysgolion
**Cyllid:** £7000
**Crynodeb o weithgareddau/prosiectau:** Bydd Cyngor Abertawe yn defnyddio'r cyllid i ryddhau aelod o staff am ddiwrnod ym mhob ysgol i'w helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o blant aelodau'r Lluoedd Arfog. Bydd hyn yn cynnwys aelodau allweddol o staff yn ymgysylltu ag ymweliadau ysgol SSCE Cymru a'r pecyn CPD. Mae Cyngor Abertawe'n datblygu grŵp SSCE Abertawe i gefnogi plant aelodau'r Lluoedd Arfog yn yr ardal i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi'n llawn a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddosbarthu'r cyllid fesul plentyn aelodau'r lluoedd arfog yn yr ysgolion sydd wedi nodi bod ganddynt blant felly. Bydd hyn yn caniatáu i ysgolion fuddsoddi mewn adnoddau a all gefnogi plant aelodau'r Lluoedd Arfog. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod pwysigrwydd casglu data ac felly bydd yn anelu

at fapio perfformiad plant aelodau'r Lluoedd Arfog gan ddefnyddio data cyfredol ac archwilio dulliau ar gyfer olrhain plant aelodau'r Lluoedd Arfog yn y dyfodol er mwyn helpu i ddyrannu cyllid yn y dyfodol.